Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: 19 Chwefror, 2016

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 25 CHWEFROR 2016** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 3 - 8)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2016 (copi ynghlwm).

**5 DATBLYGU YSBYTY CYMUNED YN Y RHYL**

I ystyried cyflwyniad gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar eu bwriadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol mewn perthynas â safle Ysbyty Brenhinol Alexandra, Y Rhyl.
**9.35 a.m. – 10.15 a.m.**

**Egwyl**

**6 DIOGELU OEDOLION DIAMDDIFFYN** (Tudalennau 9 - 16)

I ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn (POVA) (copi ynghlwm) ar y dilyniant i'r adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer Diogelu Oedolion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd, 2015.

**10.25 a.m. – 11.05 a.m.**

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 17 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11.05 a.m. – 11.15 a.m.**

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**11.15 a.m. – 11.25 a.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Meirick Davies
Martyn Holland
Pat Jones
Dewi Owens
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Bill Tasker

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr Y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 14 Ionawr 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Pat Jones a/ac Bill Tasker.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (LG), Rheolwr Diogelwch y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Craffu (RE) a'r Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland, Dewi Owens, Pete Prendergast a/ac Arwel Roberts.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 26 Tachwedd, 2015.

Cywirdeb:-

Esboniodd y Cynghorydd M.Ll. Davies parthed Eitem 5, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ei fod wedi bod yn bresennol fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Materion yn codi:-

Eitem 5, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio bod copi o'r llythyr a anfonwyd at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, wedi ei gynnwys yn y Brîff Gwybodaeth a ddosbarthwyd i'r Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir.*

**5 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Swyddog Perfformiad a Chynllunio Strategol (SPPO), ar y trefniadau ar gyfer sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, sydd hefyd yn cynnwys opsiynau posibl ar gyfer archwilio’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, yn unol â gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gyda phapurau’r pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Strategol (SPPM) yr adroddiad ac eglurodd y bydd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a fyddai'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016, yn arwain at oblygiadau eang i'r Cyngor yn ogystal â sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau, yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror, yn edrych yn fanylach ar oblygiadau'r Ddeddf ar gyfer y Cyngor. Un o ddarpariaethau'r Ddeddf oedd newid y Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) presennol yn Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac wrth wneud hynny, gosod y BGC newydd ar sail statudol. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r BGC fod yn destun gweithgarwch archwilio mwy dwys gan awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae Sir Ddinbych yn gweithredu BGLl ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a sefydliadau partner eraill.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2015 penderfynodd y BGLl ar y cyd mai’r dull a ddymunir o Ebrill 2016 fydd gweithredu fel BGC ar y Cyd, oni bai bod Llywodraeth Cymru (LlC) yn penderfynu y byddai'r strwythur llywodraeth leol newydd yn yr ardal yn wahanol yn y dyfodol. Mynegodd y BGLl ar y cyd hefyd y bwriad i'r BGC ar y Cyd newydd fod â Chynllun Lles partneriaeth tymor hir sengl ar gyfer ardal Conwy a Sir Ddinbych o 2017 ymlaen. Ar hyn o bryd mae'r BGLl yn rheoli dau gynllun integredig sengl ar wahân (SIPs). Pe byddai cynhyrchu Cynllun Lles Sengl yn dwyn ffrwyth, byddai wedyn yn fwy priodol i archwilio ar y cyd, er mwyn osgoi dyblygu ac i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig.

Tra bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo mewn perthynas â chynllunio ar gyfer Cynllun Lles ar y cyd, yr oedd yn cael ei wneud yn y fath fodd, pe byddai LlC yn cytuno ar gyfluniad gwahanol ar gyfer llywodraeth leol yng Ngogledd Cymru, ni fyddai’r gwaith a wnaed hyd yma wedi bod yn ofer gan y gellid ei ddefnyddio ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy fel endidau ar wahân, neu ar gyfer unrhyw ffurfweddau posibl eraill.

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr holl ddewisiadau craffu posibl ar gyfer y Cyd BGC arfaethedig fel y manylir yn atodiad 2 yr adroddiad, gan egluro mai Opsiwn 4 - trefniadau craffu anffurfiol ar y cyd – sy’n ymddangos fel y model mwyaf priodol i’w fabwysiadu ar hyn o bryd pan fydd y Cyd BGC yn weithredol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:-

- O ran ffurfweddau ad-drefnu llywodraeth leol posibl eraill, nid yw'r rhain wedi cael eu harchwilio mewn perthynas â sefydlu BGC ar y cyd. Y rheswm yw bod Conwy a Sir Ddinbych, ers peth amser, wedi gweithredu BGLl ar y cyd, ac hyd nes y dywedwyd wrth y naill awdurdod neu'r llall yn bendant nad dyma'r strwythur llywodraeth leol ar gyfer yr ardal yn y dyfodol, roedd yn ymddangos yn rhesymegol i fynd ymlaen i lawr y llwybr ar y cyd ar gyfer y BGC newydd;
- O gofio bod aelodau partner presennol y BGLl h.y. y Gwasanaeth Heddlu, Iechyd a Thân ac Achub, hefyd yn ffurfweddu eu strwythurau is-ranbarthol yn dair ardal yn seiliedig ar siroedd yr awdurdodau lleol yng ngogledd-orllewin, gogledd-ddwyrain a chanolbarth Gogledd Cymru, roedd yn rhesymegol ac yn rhesymol i sefydlu BGC ar y cyd ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych;
- P'un ai oes BGC unigol neu ar y cyd ar ddiwedd y broses, ei gylch gwaith fydd gwasanaethu anghenion ei thrigolion hyd eithaf ei allu;
- Hyd at ddiwedd mis Mawrth, 2016, mae LlC yn talu costau gweinyddol y BGLl drwy arian grant. Ond, o 1 Ebrill a chyflwyniad y BGC, bydd disgwyl i bob awdurdod lleol ariannu costau gweinyddol ar gyfer pob BGC. I ddarparu ar gyfer y costau hyn mae prosesau cynllunio busnes corfforaethol, yn ogystal â dulliau ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu symleiddio gyda'r bwriad o ddefnyddio bob proses i wireddu'r budd mwyaf i'r sefydliad;
- Byddai Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) drafft newydd, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, sy'n cynnig newidiadau sylfaenol i strwythurau a dulliau gweithio llywodraeth leol, yn cyflwyno heriau i bawb sy'n gysylltiedig ag o, gan gynnwys llywodraeth leol. Anogwyd yr aelodau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y Mesur penodol hwn oherwydd ei oblygiadau pellgyrhaeddol.

Gofynnodd yr Aelodau bod adroddiad ar y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) drafft a'i oblygiadau yn cael ei gyflwyno i'r holl gynghorwyr cyn dyddiad cau yr ymgynghoriad yn Chwefror 2016.

Ar ddiwedd y drafodaeth:-

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn cefnogi:*

*(a) cynnig i Gonwy a Sir Ddinbych barhau gyda'u trefniant ar y cyd ac uno i ddod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (yn amodol ar bod cynigion yn parhau i Gonwy a Sir Ddinbych uno dan ad-drefnu llywodraeth leol i'r dyfodol);*
*(b) cefnogi cynnig Conwy a Sir Ddinbych o gael un Cynllun Lles ar gyfer y ddwy sir;*
*(c) gweithio tuag at ddyddiad cyhoeddi o Dachwedd 2017 ar gyfer Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych ar y cyd; a*
*(d) pharhad y trefniadau archwilio presennol ar gyfer y BGLl/BGC ac, yn amodol ar benderfyniad ar ad-drefnu llywodraeth leol, cyflwyno Trefniadau Anffurfiol ar y Cyd fel yr amlinellwyd yn Opsiwn 4 Atodiad 2 o fis Mai 2017.*

**6 ADRODDIAD DIWEDDARU YNGHYLCH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH**

Dosbarthwyd copi o adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (HPPP) a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (PPM), oedd yn rhoi diweddariad ar oblygiadau penderfyniad y Cyngor, fel rhan o'r ymarfer rhyddid a hyblygrwydd i dynnu arian o’r swyddogaeth TCC ar gyfer 2016/17, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Er nad oedd y Gwasanaeth TCC yn swyddogaeth statudol gan y Cyngor, bu peth pryder gan drigolion a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â phenderfyniad y Cyngor i beidio â pharhau gyda'r Gwasanaeth ac o ganlyniad sefydlwyd Gweithgor i edrych ar fodelau amgen ar gyfer darparu Gwasanaeth TCC.

Ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, Cynghorau Tref Prestatyn, Rhuddlan a’r Rhyl, a'r Grwpiau Ardal Aelodau (MAG) perthnasol, lluniwyd a chytunwyd ar fodel lle byddai pob camera teledu cylch cyfyng yn dal yn weithredol ac yn cofnodi ar sail pedwar awr ar hugain trwy gydol y flwyddyn. Yr unig wahaniaeth fyddai na fyddent yn cael eu monitro ar sail 24 awr. Fel hyn, byddai ffilm ar gael i'r rhai sydd angen hynny ar gais.

Byddai'r Cydlynydd TCC yn cael ei gontractio i gynnal y gwasanaeth a bod yn bwynt cyswllt a chydlynydd rhwng yr holl sefydliadau partner. Cafwyd cytundeb mewn egwyddor gan yr holl gynghorau tref sy'n rhan o'r prosiect ar eu cyfraniadau ariannol tuag at y gwasanaeth a gan y partïon eraill sy'n rhan o'r prosiect.

Roedd amcangyfrif cost y Gwasanaeth yn £62K ac yma cafwyd sicrwydd mewn perthynas â £61k. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:-

- Byddai'r gwasanaeth unigol yn wasanaeth prawf o 12 mis i ddechrau i sefydlu ei hyfywdra i barhau ar gyfer y dyfodol;
- Bydd y Gweithgor yn cyfarfod eto ar 25 Ionawr i archwilio cytundeb cyfreithiol y Gwasanaeth a materion cyfreithiol eraill, yn ogystal â'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y Bwrdd;
- O 1 Ebrill 2016, y dyddiad y byddai'r gwasanaeth unigol yn dod i fodolaeth, byddai’r Gweithgor presennol yn dod yn Fwrdd Gwasanaethau TCC a byddai'n gyfrifol am lywodraethu’r Gwasanaeth a threfniadau gweithredol;
- Roedd y tabl ym mharagraff 4.11 yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â pha unigolyn/cwmnïau oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth a'i offer a chostau cysylltiedig pob elfen o'r gwaith;
- Pan fydd y Bwrdd wedi’i sefydlu, gall archwilio'r ffynonellau cyllid, fel arian grant Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a ffrydiau cyllid diogelwch cymunedol ymddygiad gwrth-gymdeithasol eraill (ASB), gyda golwg ar wneud y gorau o'r incwm i'r Gwasanaeth. Mae rhywfaint o waith ymchwil eisoes wedi ei wneud gan y gweithgor i ffynonellau cyllid. Efallai y byddant hefyd yn dymuno ymweld â Bermo a Llangefni, fel yr awgrymwyd gan aelodau, i weld y systemau TCC a osodwyd yno yn ddiweddar drostynt eu hunain;
- Roeddent yn obeithiol y gallai'r diffyg presennol o £1K rhwng costau gwasanaethau a gwariant gael eu talu drwy drafod contractau a/neu taliadau a godir ar y Cyngor neu ddefnyddwyr allanol.

Cyn cloi'r drafodaeth, diolchodd y Pwyllgor i’r Gweithgor a'r swyddogion am eu hymdrechion o ran sicrhau bod dull arall ar gyfer darparu Gwasanaethau TCC wedi'i gynllunio, er bod hynny ar sail prawf o 12 mis i ddechrau, ac maent yn dymuno yn dda i bawb dan sylw gyda'r fenter. Gofynnwyd hefyd bod adroddiadau ar y Gwasanaeth yn y dyfodol yn defnyddio llai o derminoleg jargon er budd y cyhoedd.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth a’r eglurhad a ddarparwyd ar y derminoleg:

***PENDERFYNWYD** –yn amodol ar y sylwadau uchod :-*

*(a) Derbyn yr adroddiad a chefnogi’r gwaith a wneir gan swyddogion wrth ddarparu ac adnabod arbedion a datblygu model partneriaeth newydd ar gyfer darpariaeth TCC i ddechrau ar 1 Ebrill 2016; a*
*(b) gofyn am adroddiad pellach i'w gyflwyno ymhen chwe mis yn manylu ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer y bartneriaeth TCC, gan amlinellu effeithiolrwydd y bartneriaeth wrth ddarparu'r gwasanaeth a'r effaith y mae'n ei chael ar droseddau yn yr ardal y mae'n ei gwasanaethu.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o ‘ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau’ wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet wedi’i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a’r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o’i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a’r ychwanegiadau canlynol:-

25 Chwefror 2016:-

Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y ddwy eitem busnes a restrir yn y rhaglen gwaith i’r dyfodol ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, 2016. Gofynnodd yr Aelodau am gael rhoi’r eitem yn ymwneud â Datblygu Ysbyty Cymunedol yn y Rhyl yn y dyfodol yn gyntaf ar y rhaglen. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan yr Aelodau, hysbysodd y SC y Pwyllgor fod BIPBC wedi rhoi sicrwydd y byddent yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Chwefror i drafod y mater. Cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd R.L. Feeley, i fynychu'r cyfarfod, a bod rhag-gyfarfod yn cael ei gynnal ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor am 9.00am. Trafododd yr Aelodau yn anffurfiol y materion a allai gael eu hystyried yn y cyfarfod.

14 Ebrill 2016:-

Annibyniaeth Pobl Hŷn - Ar gais y Pwyllgor, cytunodd y SC i geisio argaeledd ystafell gyfarfod yn Swyddfeydd Ffordd Brighton, y Rhyl, i gyd-fynd ag ymweliad SPOA.

Cytunodd yr aelodau y dylid estyn gwahoddiad i'r Cynghorwyr S.A. Davies a T.R. Hughes, gyda'r bwriad o ymweld â safleoedd o ddiddordeb yn ardal y Rhyl. Cytunodd y Cadeirydd i wneud trefniadau ar gyfer darparu cinio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.Ll. Davies ynghylch cau'r caffi yng Nghanolfan Grefft Rhuthun, eglurodd y SC bod y mater wedi cael ei drafod yn Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun. Cytunodd y SC i fynd ar ôl canlyniad y trafodaethau.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Ni chafwyd unrhyw adroddiadau oddi wrth gynrychiolwyr y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35a.m.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Chwefror 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant)/Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbenigol:** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd POVA** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015.** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Dilyniant yw'r adroddiad hwn i'r adroddiad perfformiad blynyddol ar Amddiffyn Oedolion a gyflwynwyd i Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd 2015.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cafwyd cais gan aelodau am fwy o fanylder ynghylch yr honiad o gam-drin o fewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio ac o fewn cartref yr unigolyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydnabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i'w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Er y bydd llawer o atgyfeiriadau yn cymryd llai na blwyddyn i'w cwblhau, maent wedi'u gwasgaru drwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad ni fydd atgyfeiriadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn o reidrwydd yn cyfateb i nifer yr atgyfeiriadau a adroddwyd arnynt sy'n cyrraedd y trothwy, gan y bydd rhai atgyfeiriadau wedi eu derbyn neu eu cwblhau y tu allan i'r cyfnod adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at atgyfeiriadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod 1/4/14 - 31/3/15, pryd bynnag y cawsant eu derbyn. Cwblhawyd 73 o atgyfeiriadau o fewn y cyfnod hwn.

4.2 O'r 73 o atgyfeiriadau a gwblhawyd, digwyddodd 78% (56) o'r cam-drin honedig o fewn cartref gofal (nyrsio neu breswyl) neu o fewn cartref yr unigolyn ei hun yn y gymuned. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y categori o gam-drin, y cyflawnwr honedig a'r canlyniad. Gweler yr atodiad am fwy o fanylder.

4.3 Canlyniadau cyffredinol y 42 o atgyfeiriadau o fewn cartref gofal nyrsio neu breswyl

| | |
|---|---|
| Profwyd /Wedi ei gynnal | 16 |
| Amhendant | 10 |
| Gwrthbrofwyd | 5 |
| Cyfaddef | 1 |

| | |
|---|---|
| Yn debygol yn ôl pob tebyg | 4 |
| Yn annhebygol yn ôl pob tebyg | 5 |
| Honiad wedi ei gymryd yn ôl. | 1 |

4.4 Canlyniadau ar gyfer y dioddefwr honedig a'r cyflawnwr honedig

| | |
|---|---|
| Risgiau wedi eu lleihau / dulliau diogelu wedi eu gwella | 19 |
| Risgiau wedi eu dileu | 23 |
| Hyfforddiant ychwanegol / mwy o oruchwyliaeth i staff | 16 |
| Staff wedi eu diswyddo/disgyblu | 9/3 = 12 |
| Polisïau/gweithdrefnau wedi eu hadolygu | 19 |
| Erlyniad troseddol | 1 |

4.5 Categorïau o gam-drin – Byddwch yn ymwybodol y gallai mwy o gategorïau fod yn cael eu hystyried o fewn 1 atgyfeiriad.

| | |
|---|---|
| Esgeulustod | 14 |
| Emosiynol/seicolegol | 9 |
| Ariannol | 6 – gan deulu/ffrindiau |
| Corfforol | 18 |
| Rhywiol | 4 |

4.6 Trafodir pob atgyfeiriad diogelu sy'n ymwneud â darparwyr gofal gyda Swyddogion Contractau. Mae llawer o'r materion, a'r ffordd y maent wedi cael eu trin gan reolwyr cartrefi, yn enghreifftiau o arfer da a nodir y rhain fel rhan o'r broses monitro contractau. Mae Swyddogion Contractau yn mynychu cyfarfodydd strategaeth ac yn delio gyda materion o safbwynt contract gyda monitro ychwanegol fel bo'r angen. Maent hefyd yn sicrhau bod materion o'r fath yn cael eu hystyried fel rhan o broses Pryder Cynyddol ble bo hynny'n addas. Mae'r tîm Contractau bellach yn monitro 64 cartref gofal. O'r rhain roedd 21 yn destun atgyfeiriad diogelu yn ystod blwyddyn 2015/15. Roedd un atgyfeiriad hefyd am ddigwyddiad a ddigwyddodd yn un o gartrefi gofal Cyngor Sir Ddinbych. Cafodd y rhan fwyaf o'r materion eu trin ar y pryd a doedd dim pryderon parhaol gyda 19 o'r cartrefi gofal ond yn nodi 1 neu 2 digwyddiad dros y flwyddyn. Roedd dau o'r cartrefi gyda lefelau uwch o faterion diogelu yn destun Pryderon Cynyddol ar y pryd, fel y nodwyd yn yr adroddiadau monitro safon chwarterol a anfonir at Gadeiryddion ac Is Gadeiryddion Archwilio.

4.7 Astudiaeth Achos

Cafwyd honiad o esgeulustod o safbwynt preswylydd benywaidd mewn cartref gofal oedd yn ymwneud â briw pwysau. Roedd yr honiad hwn yn ymwneud ag aelod o staff y GIG oedd yn cefnogi'r unigolyn hwn o fewn y cartref gofal. Mae angen nodi yma mai cyfrifoldeb y gwasanaethau nyrsio cymunedol yw rheoli briwiau pwysau pan fydd unigolyn yn byw yn eu cartref eu hunain neu mewn sefydliad preswyl.

Roedd yr achos yn un cymhleth iawn a gymerodd 18 mis i'w gwblhau. Yn y man cyntaf arweiniodd yr heddlu ar y mater gan gynnal ymchwiliad troseddol, cyn dod i'r canlyniad nad oedd y trothwy esgeulustod bwriadol wedi ei gyrraedd ac felly ni fyddai achos pellach yn cael ei gymryd ganddynt.

Daeth yr achos hwn yn ôl wedyn i gael ei reoli o dan y Polisïau a'r Gweithdrefnau ar gyfer Diogelu Oedolion Diamddiffyn (POVA). Comisiynwyd ymchwiliad nad yw'n droseddol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chylch gorchwyl clir. Wrth ddod i ganlyniad mae'n bwysig nodi bod gan ymchwiliad nad yw'n droseddol yr un pwrpas ag ymchwiliad troseddol ac mae'n rhaid ei gynnal hyd at y safonau proffesiynol uchaf. Fodd bynnag, seilir ei ganlyniadau yn ôl pwysau tebygolrwydd yn hytrach na throthwy tu hwnt i bob amheuaeth resymol, fel sydd yn angenrheidiol mewn achosion troseddol.

Daeth canlyniad yr ymchwiliad hwn i'r casgliad bod tystiolaeth i gefnogi'r honiad o gam-drin. Roedd dogfennaeth i gefnogi bod y nyrsys ardal wedi methu cyflawni eu dyletswydd o ofal i safon digon uchel. Daeth y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r cyfarfod strategaeth i'r canlyniad ei fod wedi ei brofi/ei gynnal, yn ôl pob tebyg, bod yr unigolyn wedi dioddef esgeulustod.

Cynhaliwyd cynhadledd achos oedd yn cynnwys teulu ac aelodau staff allweddol er mwyn darparu adborth. Cynhaliwyd adolygiad o'r dulliau diogelu cyfredol, nid ar gyfer yr unigolyn yn unig, ond er mwyn cynhwyso goblygiadau posib i oedolion diamddiffyn eraill.
Y canlyniad ar gyfer yr aelodau staff a enwyd oedd bod gweithdrefnau disgyblu wedi eu dilyn, rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol a rhoddwyd polisïau/gweithdrefnau darparu gwasanaeth wedi eu hadolygu ar waith.

Cofnodwyd yr atgyfeiriad hwn yn gywir fel un oedd wedi digwydd mewn sefydliad preswyl, ond fel a nodwyd uchod roedd yr honiad o esgeulustod yn erbyn cyflogeion GIG oedd yn darparu gwasanaeth o fewn y cartref gofal.

4.8 Cyflawnwyr honedig camdriniaeth yng nghartrefi'r unigolion eu hunain

| | |
|---|---|
| Staff y sector annibynnol | 7 |
| Teulu/Ffrind | 4 |
| Gwasanaeth arall | 2 |
| Gweithiwr (taliad uniongyrchol) | 1 |

4.9 Canlyniadau ar gyfer y dioddefwr honedig a'r cyflawnwr honedig

| | |
|---|---|
| Risgiau wedi eu lleihau / dulliau diogelu wedi'u gwella | 7 |
| Risgiau wedi eu dileu | 7 |
| Hyfforddiant ychwanegol / mwy o oruchwyliaeth i staff | 4 |
| Staff wedi eu diswyddo/disgyblu | 3 |
| Polisïau/gweithdrefnau wedi eu hadolygu | 2 |
| Pryderon Cynyddol. | 1 |

4.10 Categorïau o gam-drin – Byddwch yn ymwybodol y gallai mwy o gategorïau fod yn cael eu hystyried o fewn 1 atgyfeiriad.

| | |
|---|---|
| Esgeulustod | 6 |
| Emosiynol/seicolegol | 3 |

| | |
|---|---|
| Ariannol | 2 |
| Corfforol | 5 |
| rhywiol | 0 |
| Cam-drin domestig | 1 |

4.11 Astudiaeth Achos

Enghraifft sydd isod o honiad o esgeulustod a cham-drin corfforol yn erbyn teulu/ffrind. Dywedodd unigolyn bod ei ffrind/landlord a'i ofalwr wedi ei gam-drin ychydig fisoedd ynghynt. Nid oedd y dioddefwr honedig am roi gwybod i neb gan ei fod ofn i'r un peth ddigwydd eto dan law'r cyflawnwr honedig. Y canlyniad a gofnodwyd yw ei fod yn debygol yn ôl tebyg bod yr unigolyn diamddiffyn wedi dioddef y gamdriniaeth yma. Fodd bynnag ni allai'r achos hwn symud ymlaen o dan ymchwiliad troseddol gan nad oedd y dioddefwr yn fodlon gwneud datganiad i'r heddlu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae trefniadau Bwrdd Diogelu Oedolion Diamddiffyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaethol i ddiogelu pobl ddiamddiffyn i'w galluogi i barhau i fyw yn annibynnol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gwasanaeth eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

**8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Amherthnasol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r model cyflwyno sy'n rhannu rôl a chyfrifoldebau'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig gyda rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr yn cyflwyno her i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd ac ansawdd wrth ddelio ag atgyfeiriadau dulliau diogelu. Mae datblygu swydd uwch ymarferydd – yn arwain Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn ogystal â swydd Rheolwr y Tîm Diogelu yn sicrhau trosolwg mwy cadarn o'r broses ddiogelu gyfan.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor ac Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd POVA
Ffôn:  01824 706675

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## 1 Honiadau o gam-drin mewn lleoliad cartref gofal

1.1 Roedd 42 achos lle digwyddodd y cam-drin honedig o fewn cartref gofal Nyrsio a Phreswyl. Roedd 9 o'r rheiny o fewn cartrefi gofal sydd wedi eu cofrestru ar gyfer grŵp cleient henoed bregus eu meddwl. Dim ond 1 neu 2 o atgyfeiriadau oedd gan y rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn yn erbyn eu gwasanaeth. Fodd bynnag roedd nifer fach o ddarparwyr â mwy na 2 atgyfeiriad yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd unrhyw un o'r darparwyr hyn oedd â 2 neu fwy o atgyfeiriadau wedi eu cofrestru fel lleoliadau henoed bregus eu meddwl.

1.2 Roedd gan Ddarparwr A 6 atgyfeiriad gyda honiadau yn erbyn aelodau staff. Mynegwyd pryderon ar ffurf honiadau o esgeulustod (1) a cham-drin corfforol, emosiynol a seicolegol (5). Canlyniadau cyffredinol 5 o'r atgyfeiriadau hyn oedd 'wedi eu profi/eu cynnal' gydag un 'yn annhebygol yn ôl pwysau tebygolrwydd'.

Y canlyniadau ar gyfer y dioddefwyr hyn oedd bod y risgiau wedi eu dileu. Aethpwyd a'r cyflawnwyr honedig drwy broses ddisgyblu'r darparwr a'u diswyddo. Rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i weddill y staff. Newidiodd y Darparwr eu polisi a'u gweithdrefnau er mwyn gwella mesurau diogelu. Mae'r cartref gofal hwn bellach wedi cau, fodd bynnag nid oedd hyn oherwydd pryderon diogelu. Roedd y cartref yn nwylo'r gweinyddwyr a gwnaethpwyd y penderfyniad i gau ar y sail nad oedd bellach yn fusnes hyfyw.

1.3 Mae gan Ddarparwr B nifer o gartrefi ar draws Sir Ddinbych a chofnodwyd 5 atgyfeiriad: honiad o esgeulustod gan staff y canfuwyd ei fod yn debygol; 1 honiad o gam-drin rhywiol gan ddefnyddiwr gwasanaeth arall y canfuwyd ei fod yn amhendant; 3 honiad o gam-drin corfforol - 1 gan ddefnyddiwr gwasanaeth arall ac fe'i cafwyd yn annhebygol o fod wedi achosi cam-drin a 2 yn erbyn aelodau staff, roedd canlyniad un yn amhendant e.e. dim digon o dystiolaeth i gefnogi bod y cam-drin wedi neu heb ddigwydd a'r llall yn annhebygol yn ôl pob tebyg.

Canlyniadau'r dioddefwyr honedig oedd bod y risg wedi ei leihau neu ei ddileu, a bod Cynlluniau Gwarchod Unigolyn wedi eu rhoi ar waith. Y canlyniad ar gyfer y cyflawnwyr honedig oedd hyfforddiant ychwanegol i aelodau staff a goruchwyliaeth ychwanegol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth. Yn yr achos o gam-drin rhywiol cafodd y defnyddiwr gwasanaeth ei alw yn ôl i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwnaeth y darparwr newidiadau i'w polisïau/gweithdrefnau cyfredol o safbwynt staff yn codi a chario ayb.

1.4 Cofnodwyd 4 atgyfeiriad ar gyfer Darparwr 3, roedd 3 yn ymwneud â honiadau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cam-drin defnyddwyr gwasanaeth eraill, ac roedd 1 honiad yn erbyn staff. Roedd dau o'r honiadau yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth eraill yn y categori cam-drin rhywiol. Y canlyniad i'r dioddefwr mewn un achos oedd dileu'r risg oherwydd newid lleoliad a lleihawyd y risgiau eraill drwy osod cynllun gwarchod unigolyn yn ei le. Canlyniad cyffredinol yr honiad oedd bod 1 yn amhendant ac roedd 1 yn debygol o fod wedi achosi cam-drin yn ôl pob tebyg.

Cafwyd canlyniad a brofwyd/ei gynnal ar y trydydd atgyfeiriad o honiad o gam-drin corfforol gan ddefnyddiwr gwasanaeth arall. O ganlyniad i hyn cafodd strategaethau

lleihau risg eu rhoi ar waith ar ffurf cynllun gwarchod unigolyn a chynllun gwarchod cyffredinol er mwyn cefnogi pryderon diogelu'r trigolion eraill.

1.5 Roedd yr atgyfeiriad oedd yn ymwneud â'r honiad yn erbyn aelod o staff o fewn y categori cam-drin corfforol, emosiynol a seicolegol, a'r canlyniad oedd tebygolrwydd o fod wedi achosi cam-drin. Lleihawyd y risgiau i'r dioddefwr a rhoddwyd hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol i'r aelod staff. Gwnaeth y darparwr newidiadau i'w polisïau/gweithdrefnau presennol a fu hefyd yn destun proses pryderon cynyddol ar y pryd a achosodd gynnydd mewn monitro gan bob asiantaeth.

